



## Sut i gymryd rhan yn Food Power

Mae Food Power yn rhaglen pedair blynedd o dan arweiniad Sustain a Church Action on Poverty ac fe'i hariennir gan y Gronfa Loteri Fawr. Nod Food Power yw cryfhau gallu cymunedau lleol i leihau tlodi bwyd trwy atebion a ddatblygir ganddynt gyda chefnogaeth eu cymheiriaid o gymunedau eraill ar draws y DU. Ein nod yw trawsnewid y ffordd y gall pobl mewn tlodi bwyd gael cefnogaeth a chreu bywydau cynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn rhydd rhag newyn. Bydd ymgysylltu pobl leol a chynghreiriau lleol yn hanfodol i hyn, gan roi llais i'r rheiny sydd yn profi tlodi bwyd, gan ddylanwadu ar ymarfer ar lawr gwlad a chyflwyno adnoddau ychwanegol.

Nod y rhaglen yw cryfhau a datblygu cynghreiriau tlodi bwyd newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli o ardaloedd ar draws y DU. Trwy 'gynghrair tlodi bwyd' rydym yn golygu partneriaeth neu gonsortiw m o sefydliadau (o'r sectorau cyhoeddus, ffydd, gwirfoddol a chymunedol yn ddelfrydol) sydd yn ymrwmo i gydweithio i drechu tlodi bwyd mewn ardal ddaeryddol benodol. Credwn trwy gydweithio, cydlynu ymdrechion a rhannu syniadau ac arfer da y gallwn wneud gwahaniaeth arwyddocaol i fywydau'r rheiny sydd mewn tlodi bwyd. Mae sawl ffordd o gymryd rhan yn y rhaglen.

### 1. Derbyn yr e-gylchlythyr

[Derbyniwch](#) ein cylchlythyr misol am wybodaeth am waith sy'n mynd rhagddo, digwyddiadau, cynadleddau a chyfleoedd i wneud cais am gymorth ariannol.

### 2. Cofrestru eich cynghrair a chael cymorth cymheiriaid

Bydd cynghreiriau tlodi bwyd yn ymgysylltu â'r rhaglen ar lefelau gwahanol, ond gwahoddir pob un i [gofrestru](#) gyda'r rhwydwaith. Y bwriad yw cryfhau cynghreiriau presennol a rhoi cymorth i gynghreiriau newydd sy'n dod i'r amlwg neu'r rheiny fyddai'n gwerthfawrogi bod yn rhan o rwydwaith dysgu cymheiriaid. Bydd pob un o'r cynghreiriau hyn:

- Yn rhan o rwydwaith dysgu cymheiriaid lleol
- Naill ai'n darparu neu'n gallu gwneud cais am fentora cymheiriaid rhwng cynghreiriau
- Yn cael cyfle i wneud cais am gymorth ariannol i helpu i ddatblygu eu cynghrair a'i weithgareddau.

### 3. Ymuno â rhwydweithiau, digwyddiadau a chynadleddau dysgu cymheiriaid

Prif nod y rhaglen hon yw rhannu dysgu a phrofiad rhwng cynghreiriau. Gwahoddir pob cynghrair i ymgysylltu mewn rhwydweithiau, digwyddiadau a chynadleddau dysgu cymheiriaid sy'n cael eu cynnal gan y rhaglen. Bydd gwybodaeth berthnasol yn ymddangos [yma](#) a thrwy gyfathrebiadau gyda'r rhwydwaith.

### 4. Cyflwyno mentora cymheiriaid

Rydym yn datblygu tîm o fentoriaid cymheiriaid o gynghreiriau ar draws y DU. Bydd pob un o'r mentoriaid cymheiriaid hyn yn hwyluso rhwydwaith dysgu cymheiriaid lleol o gynghreiriau tlodi bwyd ac yn cyflwyno mentora cymheiriaid un i un i gynghreiriau unigol. Mae mentoriaid cymheiriaid yn gyflogeion penodol a enwir o wyth cynghrair tlodi bwyd. Rydym eisoes wedi penodi mentoriaid cymheiriaid mewn rhai ardaloedd a'n nod yw meithrin mentoriaid cymheiriaid i gynnwys ardaloedd sydd yn weddill maes o law. Os hoffech wneud cais i fentora cymheiriaid, nodwch hyn pan fyddwch yn [cofrestru](#) eich cynghrair neu [cysylltwch](#) â'r tîm.



## 5. Gwneud cais am gymorth ariannol i helpu i ddatblygu eich cynghrair

Gall cynghreiriau sydd wedi cofrestru wneud cais am gymorth ariannol untro o hyd at £10,000 i datblygu eu cynghrair neu gynllun gweithredu tlodi bwyd ar yr adeg y bydd fwyaf defnyddiol yn ystod oes y rhaglen. Mae hyd at £1,000 o'r cymorth wedi ei ddyrannu'n benodol i dalu am gostau teithio a llety ar gyfer ymweliadau dysgu'r prosiect. Fe wnaeth y ceisiadau ar gyfer y cylch cyntaf gau ym mis Tachwedd 2017. Bydd cylchoedd pellach yn agor yn ystod tymor yr **hydref 2018 a 2019**.

## 6. Ymgysylltu arbenigwyr trwy brofiad

Byddwn yn gweithio gyda thri phrosiect peilot i roi ymagweddau yn ymgysylltu arbenigwyr ar brawf trwy brofiad yn sefydlu strategaeth cynghrair tlodi bwyd a datblygu cynlluniau gweithredu tlodi bwyd. Bydd pob cynllun peilot yn cael hyd at £5,000 i gefnogi'r gwaith hwn. Byddwn yn recriwtio'r tri chynghrair i weithio ar y cynlluniau peilot hyn rhwng **Rhagfyr 2017 a Chwefror 2018**. Cynhelir y cynlluniau peilot yn y cyfnod o **Ebrill 2018 – Mai 2019** a byddant yn cael cymorth gan staff rhaglen a phroses gref i werthuso'r hyn sy'n gweithio'n dda. Yn dilyn cyfnod y peilot, bydd cyfanswm o £60,000 ar gael mewn cymorth ariannol yn ystod **2019 a 2020** i gefnogi deuddeg cynghrair arall i gynnwys arbenigwyr trwy brofiad. [Darllenwch fwy](#) am y ffrwd waith hon a sut i wneud cais i fod yn brosiect peilot.

## 7. Cymryd rhan mewn gwaith thematig

Yn ystod pedair blynedd y rhaglen bydd tri maes thematig yn rhedeg am ryw flwyddyn yr un. Ein gobaith yw creu 'bwrlwm' yn ymwneud â'r themâu hyn a hwyluso'r gwaith o rannu arfer gorau ymysg cynghreiriaid. Yn nhymor yr hydref 2017, ymgynghorodd y tîm â'r rhwydwaith i benderfynu ar y thema gyntaf ar gyfer 2018, fydd yn cael ei lansio yn gynnar y flwyddyn nesaf. Bydd themâu'r dyfodol yn cael eu gosod yn unol â'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o gynghreiriau a rhwydeithiau dysgu cymheiriaid. Gall cynghreiriaid wneud cais am hyd at £5,000 i gefnogi gwaith ar y thema. Bydd y cylch cyntaf o gymorth ariannol yn agor o fis **Ionawr - Chwefror 2018**, gyda mwy o wybodaeth yn ymddangos [yma](#). Bydd angen i'r gweithgaredd gan gynghreiriaid ddigwydd o **Ebrill 2018 – Mai 2019**.

## 8. Cyflwyno cynlluniau peilot gwerthuso

Bydd gweithio gyda'n partner gwerthuso ym Mhrifysgol Caerdydd yn adolygu ac yn creu offer gwerthuso y gellir eu defnyddio'n helaeth ar draws y sector i ddangos effaith prosiectau tlodi bwyd. Byddwn hefyd yn cynnal gwerthusiadau manylach o effaith y rhaglen mewn detholiad o ardaloedd ac yna'n rhannu'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu gyda gweddill y rhwydwaith. Bydd cynghreiriau yn gweithio'n agos gyda'r tîm Food Power a Phrifysgol Caerdydd naill ai i ddatblygu a rhoi offer ar brawf neu i gynnal gwerthusiad at wraidd y mater ar effaith y rhaglen. Bydd cymorth ariannol ar gael i gefnogi'r gwaith hwn hefyd.

## 9. Arian cyfatebol

Rydym yn annog cynghreiriau i gael arian cyfatebol ar gyfer ein holl gynigion am gymorth ariannol. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y broses ymgeisio am gymorth ariannol. Rydym yn cydnabod y bydd symiau armwyiol o arian cyfatebol ar gael mewn ardaloedd gwahanol a/neu ar gyfer gweithgareddau gwahanol. Byddwn hefyd yn annog ceisiadau sydd yn cynnwys cymorth cyfatebol mewn nwyddau. Caiff hyn ei esbonio ymhellach yn ystod y cam ymgeisio.

**Rhagfyr 2017**